

# YSBRYDOLI arloesedd



**GWELLA ENTREPRENEURIAETH**

## ADRODDIAD EFFAITH 2021

Ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam rydym yn ceisio teilwra ein cymorth i anghenion pob myfyriwr unigol, er mwyn eu paratoi orau ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Rydym yn falch o'n cyrsiau a arweinir gan y diwydiant, sy'n cynnwys cynigion i fynd ar leoliadau gwaith a Chynllun Prentisiaeth Gradd. Mae ein cysylltiadau gyda'r diwydiant yn cyfrannu at y profiadau ymarferol rydym yn eu cynnig i fyfyrwyr, ac yn gwella eu cyflogadwyedd. Mae ein cymorth entrepreneuriaidd yn adeiladu ar gryfderau ein prifysgol. Anogir pob myfyriwr i gael profiad ymarferol o entrepreneuriaeth, yn allgyrsiol ac o fewn eu modiwlau gradd. Rydym yn credu mewn ymestyn sgiliau rhwydweithio myfyrwyr a'u gwybodaeth ar bob cyfle posib. Mae hyn yn cynnwys cynnig gofod i fyfyrwyr ddatblygu eu busnesau yn ein Lolfa Fenter newydd sbon.

## PRIF LWYDDIANNAU 2021

Rydym yn falch iawn o'r hyn a gyflawnom fel fim yn 2021. Cafodd y pandemig COVID effaith sylweddol ar ein targedau ymgysylltiad eleni, ond er gwaethaf hyn rydym wedi cyflawni 15 o fusnesau newydd gan fyfyrwyr. Gwnaethom barhau â'n cymorth personol un i un drwy TEAMS, ac wrth i gymdeithas ddechrau agor eto, gwnaethom helpu i gefnogi ein myfyrwyr wrth iddynt ddychwelyd i'r campws ac i fywyd 'arferol'. Cafodd myfyrwyr fynediad i amrywiaeth o ddigwyddiadau newydd, gan gynnwys digwyddiad y siaradwr gwadd Levi Roots, a ymwelodd â'r brifysgol ym mis Hydref, a George Savva, yr arweiniodd ei weithdy 'Crashing Through Workshop' at gynnydd mewn hyder a sgiliau cyflwyno myfyrwyr. Yn y cyfamser, parhaodd ein cydweithrediad â rhwydwaith ehangach EEUK, gan arwain at Wythnos Cychwyn Busnes lwyddiannus arall a Hac o Newid.

Llwyddiant allweddol arall yn 2021 oedd lansio ein cyfres Bwrdd Buddsoddiadau, lle mae myfyrwyr yn ymarfer cyflwyno eu busnes ac yn derbyn adborth. Mae ymgeiswyr wedi mynychu sesiynau ar ddatblygu syniad busnes, marchnata, cynllunio busnes, cyllid a dosbarthiadau meistr cyflwyno gan arbenigwyr yn y diwydiant. Yn olaf, parhaodd ein hymdrechion i ymgorffori meddwl entrepreneuriaidd yng nghwricwlwm myfyrwyr, gyda chydweithrediad newydd gyda'r adran Therapi Galwedigaethol a chefnogaeth barhaus gan yr adran Gemau Cyfrifiadurol.

Yn gyffredinol, yn 2021, rydym wedi bod yn arloesol ac yn wydn o ran yr hyn rydym wedi ei gynnig, sydd wedi cynyddu hyder a chyflogadwyedd myfyrwyr, yn ogystal ag entrepreneuriaeth. Edrychwn ymlaen at gefnogi hyd yn oed mwy o fyfyrwyr yn 2021.

To find out more about how we can support you please email [enhance@glyndwr.ac.uk](mailto:enhance@glyndwr.ac.uk)



PRIFYSGOL  
Glyndŵr  
Wrecsam

Wrexham  
glyndŵr  
UNIVERSITY

# YSBRYDOLI. #arloesed



GWELLA ENTREPRENEURIAETH

ADRODDIAD DIWEDD  
BLWYDDYN 2021



SYLWADAU

Ffigyrau

CYSYLLTU

GRYMUSO

BUSNESAU NEWYDD




*Mae'r adborth cadarnhaol o'm cyflwyniad wedi rhoi hyder o'r newydd i mi yn yr hyn rwyf eisiau ei wneud."*


Ffigyrau eraill



Academaidd  
Entrepreneuriaeth  
Hyrwyddwyr



Dilynwyr cyfryngau cymdeithasol



Esiamplau/Digwy  
ddiadau BIW

*"Mae'r lolfa fenter yn golygu llawer i mi allu canolbwyntio ar hybu a lansio fy mhlatfform digidol."*

*"Rwyf wirioneddol yn gwerthfawrogi cefnogaeth y fîm."*

*Ni fyddwn wedi gallu llwyddo hebddynt."*

I ddysgu mwy am sut y gallwn eich cefnogi chi, e-bostiwch [enhance@glyndwr.ac.uk](mailto:enhance@glyndwr.ac.uk)



PRIFYSGOL  
Glyndŵr  
Wrecsam

Wrexham  
Glyndŵr  
UNIVERSITY